

# Nid atgof ond sylweddoliad

*“... byddwch chwi'n fy ngweld, fy mod yn fyw; a byw fyddwch chwithau hefyd.”  
(adn. 19)*

## Beth am ddarllen Ioan 14:15–31 ac yna myfyrio

Efallai mai'r rheswm pennaf pam nad yw Cristnogion yn ofni marwolaeth yn yr un ffordd â'r rhai nad ydynt yn Gristnogion yw eu bod yn adnabod yr Iesu sydd yn fyw. Mae'n testun yn cyhoeddi heddiw, oherwydd ei fod ef yn fyw, byw fyddwn ninnau hefyd.

Mae sôn am ddau ŵr digrefydd yn trafod yr atgyfodiad, gan ddweud wrth ei gilydd pam ei bod yn amhosibl derbyn y gwirionedd. Ar yr eiliad honno, daeth hen ŵr heibio. Roeddent yn adnabod y gŵr yma fel Cristion. Dyma ofyn iddo: “Syr, dywedwch wrthym pam yr ydych yn credu fod Iesu wedi codi o'r meirw?” “Wel,” meddai'r hen ddyn, “un rheswm yw fy mod yn siarad gydag ef ychydig funudau yn ôl.”

Mae'r rhai sydd wedi ildio i Iesu Grist yn ei adnabod fel un sydd yn fyw, oherwydd ei fod yn byw ynddynt. Mae'r hyn sydd yn wir yn hanesyddol wedi dod yn wir yn brofiadol. Mae'r ffaith fod Iesu Grist yn fyw yn wirionedd sydd yn cael ei gadarnhau ym mhrofiadau Cristnogion o ddydd i ddydd. Mae'n siŵr y bydd rhai yn anghytuno gyda hyn, ond nid y rhai sydd yn adnabod Crist fel Arglwydd a Gwarddwr. Ym mhob cenhedlaeth, ym mhob gwlad, ymhob diwylliant, mae gwŷr a gwragedd sydd wedi derbyn Iesu'n profi'r un peth, yr adnabyddiaeth fod Crist yn fyw, yn prynu, yn dwyn llawenydd, yn dwyn cariad, yn rhoi sicrwydd o nefoedd. Nid yn unig ei gofio a wna'r rhai sydd yn ei garu. Yr ydym yn ei adnabod, ac yn adnabod ei bresenoldeb ynom. Mae'r nefoedd yn realiti i ni oherwydd ein bod eisoes wedi profi rhywfaint o'r nefoedd yma. Mae'r bywyd y tu hwnt i'r bedd yn ddeniadol yn ein golwg, oherwydd yr ydym wedi cael blas arno eisoes.

Gofynnodd merch i'w thad unwaith yn yr Alban a fyddai'n hoffi iddi ddarllen y Beibl iddo, gan ei fod yn gorwedd ar ei wely angau. “Na, fy merch,” meddai'r tad, “rwyf wedi rhoi to ar y tŷ cyn i'r storm yma gyrraedd.”

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Gal. 2:1–20; Eff. 3:17–18; 1 Ioan 3:24

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut y disgrifiodd Paul ei fywyd?
2. Sut, yn ôl Ioan, yr ydym yn gwybod fod Duw yn fyw?

## Gweddi

O Dad, mae adnabod dy Fab wedi rhoi rhagflas i mi o'r nefoedd, ac rwyf yn sicr y bydd yr hyn sydd yn fy aros yn well nag unrhyw beth y medraf ei ddychmygu yn fy mywyd yn awr. Mae'r blas yn felys, ni allaf ddisgwyl am y wledd. Amen.